# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli*
# *Harbour Consultative Committee*

***24 Mawrth 2009***

***Adroddiad yr Uned Forwrol***

***1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>***

**1.1** Mae’r ffioedd a’r taliadau sy’n ymwneud â blwyddyn ariannol 2009/10 wedi’u cymeradwyo gan y Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portffolio’r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Er mwyn sicrhau fod ein cleientiaid yn ymwybodol o’r newidiadau sydd ar y gorwel, mae’r Uned Forwrol wedi anfon copi o’r ffioedd a’r taliadau i bob client a’r dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y Ffurflenni Cais am Angorfeydd yn yr Harbwr Allanol oedd 27 Chwefror 2009. Hyd yma, mae cyfanswm o **112** o Ffurflenni Cadarnhau Angorfeydd wedi’u dychwelyd a bydd gofyn i’r Harbwr Feistr gynnig angorfeydd gwag i’r rhai sydd ar y rhestr aros. Nifer y Cleientiaid Angorfeydd yn yr Harbwr Allanol eleni yw **148.** Cyfanswm nifer yr angorfeydd sydd ar gael yn yr Harbwr Allanol yw **181.** Yn Hafan Pwllheli, mae 287 o gleientiaid wedi dychwelyd y ffurflen gadarnhau, tra bod cyfanswm o 29 wedi tynnu eu cytundeb yn ôl. Mae cyfanswm o 122 ar ôl. Mae 341 ar y rhestr aros.

**1.2** Atodir copi o’r ffioedd sy’n ymwneud â Hafan Pwllheli a’r ffioedd sy’n ymwneud ag angorfeydd sydd wedi’u lleoli o fewn yr Harbwr Allanol. Bydd aelodau’n sylwi fod y ffioedd a'r taliadau ar gyfer angorfeydd pontŵn yn Hafan Pwllheli wedi cynyddu 4% ar gyfer pontynau heb drydan, ac wedi cynyddu 6% ar gyfer pontynau sydd wedi'u gwasanaethu gan drydan. Mae ffioedd eraill yn Hafan Pwllheli yn cael eu cynyddu 3%. Ar gyfer angorfeydd sydd wedi'u lleoli o fewn yr Harbwr Allanol, bydd aelodau’n sylwi fod y Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portffolio’r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi cymeradwyo’r cynnydd o 2% a argymhellir yn y ffioedd angorfeydd i gleientiaid sy’n byw yn barhaol yng Ngwynedd, tra bod y ffioedd i gleientiaid sy’n byw y tu allan i Wynedd yn cynyddu 4%.

**1.3** Rhagwelir y bydd graddfa chwyddiant ar gyfer harbyrau Gwynedd yn 2.67% yn 2009/10. Mae hyn yn cyfateb i’r cynnydd angenrheidiol o £7,540 yn y targed incwm cronnol ar gyfer harbyrau Gwynedd yn 2009/10. Mae’r mynegai chwyddiant ar gyfer Hafan Pwllheli yn 2.40%, ac mae hyn yn cyfateb i gynnydd angenrheidiol o £35,900 yn y targed incwm cronnol ar gyfer 2009/10. Bydd y gostyngiad mewn TAW o 17.5% i 15% o 1 Rhagfyr 2008 wedi sicrhau fod y gost net i'r cleient wedi'i gostwng.

**1.4** Bydd aelodau’n ymwybodol fod y targedau incwm ar gyfer Hafan Pwllheli a’r Harbwr Allanol wedi’u cyrraedd a’u pasio yn y blynyddoedd a fu. Bydd mesurau priodol yn dal i gael eu cymryd er mwyn sicrhau fod cyfanswm y gwariant a’r anghenion incwm yn cyrraedd eu targedau yn 2009/10. Mae cyfanswm y cynnydd yn y targed incwm ar gyfer yr Uned Forwrol yn 2009/10 yn £51,020 gan gynyddu cyfanswm targed incwm yr Uned Forwrol i £2,121,900.

**1.5** Nid yw’r ffioedd a’r taliadau sy’n ymwneud â Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol wedi’u cynyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Atodir copi o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer.

**2 -** ***Cyllidebau***

**2.1** Atodir copi o sefyllfa ariannol Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol ar 31 Ionawr 2009. Bydd aelodau'n sylwi fod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Pwllheli yn £118,250 ar gyfer 2008/09 a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd at ddiwedd Ionawr 2009 wedi cyrraedd £104,513; diffyg o £13,737. Ni ragwelir y bydd cyfanswm arwyddocaol o incwm yn cael ei greu yn ystod mis Mawrth ac felly, rhagwelir na fydd y targed incwm yn cael ei gyrraedd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

**2.2** Bydd aelodau'n sylwi fod y targed incwm sy'n ymwneud â Hafan Pwllheli yn £1,497.850 ar gyfer 2008/09 a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd at ddiwedd Ionawr 2009 wedi cyrraedd £1,480.616 (£1,391.00 yn yr un cyfnod y llynedd); diffyg o £17,234. Rhagwelir y bydd y targed incwm wedi cyrraedd a phasio'r targed angenrheidiol yn Hafan Pwllheli erbyn diwedd mis Mawrth.

**2.3** Fel y bydd aelodau'n sylwi, mae'r gwariant hyd yma wedi mynd dros y gyllideb ar nifer o benawdau yn yr Harbwr Allanol ac yn Hafan Pwllheli ac mae hyn yn peri peth pryder gan y rhagwelir gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Yn yr un modd â'r blynyddoedd a fu, bydd yr incwm ychwanegol a grëir yn cael ei ddyrannu i benawdau penodol er mwyn sicrhau fod y gyllideb gyda'i gilydd yn cyrraedd y targed angenrheidiol. Bydd aelodau'n nodi'r cynnydd arwyddocaol mewn costau trydan o'i cymharu â chostau trydan yn 2007/08. Bydd cyfanswm y gwariant ar y pennawd cyllideb trydan yn cael ei leihau gan fod y targed incwm ar y gyllideb incwm trydan wedi cyrraedd ei darged.

**2.4** O ystyried yr hinsawdd economaidd presennol, bydd 2009/10 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol, yn enwedig i harbyrau Gwynedd. Pwysleisir y bydd angen goresgyn unrhyw orwariant neu ddiffyg incwm, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol presennol sy'n wynebu'r Awdurdod.

**3** ***Mordwyo / Angorfeydd***

**3.3** Mae'r holl Gynorthwyon Mordwyo sy'n arwain i harbwr Pwllheli wedi aros yn eu lle ar ddechrau misoedd y gaeaf. Tra bod y rhan fwyaf o'r Cynorthwyon Mordwyo yn sefydlog, mae dau'n parhau ar y dŵr, Cynhorthwy'r Sianel Fordwyo a'r Cynhorthwy Bwi yn y sianel sy'n arwain i'r harbwr. Mae cynhorthwy starbord dros dro yn parhau yn ei le yn yr ardal dros y ffordd i swyddfa'r Harbwr Feistr er mwyn cyfeirio traffig i'r de o'r rhwystr sy'n ymestyn allan i'r sianel. Bydd marcwyr Starbord eraill yn cael eu gosod yn yr ardal hon yn gynnar yn y gwanwyn er mwyn rhoi arweiniad ychwanegol i'r morwyr sy'n mordwyo yn y rhan gul hon o'r sianel.

**3.4** Mae angen peintio'r llusernau sefydlog a bydd yr Harbwr Feistr yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn y dyfodol agos.

**3.5** Mae tri bwi port dros dro yn parhau yn eu lle ym mynedfa'r harbwr er mwyn cyfeirio traffig i ffwrdd o'r dŵr bas. Bydd y cynorthwyon marcio yn parhau yn eu lle o bosib tan 2012 pan fydd y rhaglen garthu yn y fynedfa'n ailgychwyn. Mae'r Uned Forwrol wrthi'n gwella'r marcwyr mordwyo ac mae tri cynhorthwy port sylfaenol wedi'u harchebu a fydd yn cymryd lle y cynorthwyon dros dro presennol.

**3.6** Ar 3 Mawrth 2009, nid oedd dau o'r marcwyr bwi dros dro a oedd yn dangos graddfa'r perygl wrth fordwyo ym mynedfa'r harbwr yn eu lle ac mae'r fath sefyllfa yn annerbyniol yn enwedig o ystyried pa mor agos y mae'r cynorthwyon at swyddfa'r

harbwr. Bydd yr holl Gynorthwyon Marcio Parth y Traeth a'r cynorthwyon marcio cyfyngiadau cyflymder tymhorol ger mynedfa'r harbwr mewnol, yn eu lle cyn 1 Mai.

**3.7** Mae holl angorfeydd yr harbwr wedi'u harchwilio ac wedi'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau fod y llestrau'n ddiogel yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio sydd ar y gorwel. Bydd adroddiad manwl ar gyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith a wnaed ar bob angorfa ar gael gan y Swyddog Morwrol – Harbyrau yn y cyfarfod.

Cafodd y gwaith o archwilio a chynnal a chadw'r angorfeydd ei gwblhau gan y Gwasanaeth Cynnal a Chadw ac Archwilio Tanddwr a chyfanswm y gost o archwilio a chynnal a chadw angorfeydd ym Mhwllheli oedd ***£1,750***.

Roedd cyfanswm cost y gadwyn a'r gefyn angori a ddefnyddiwyd i gynnal a chadw angorfeydd a Chynorthwyon Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn ystod gwanwyn 2009 yn £250. Roedd y gost hon yn sylweddol is nac yn y blynyddoedd a fu gan fod y gadwyn a oedd ei hangen ar gael o'r stoc.

**4 -** ***<u>Prosiect Academi Hwylio</u>***

**4.1** Mae'r Prosiect o ddatblygu Academi Hwylio ym Mhwllheli yn parhau i ddatblygu a chomisiynwyd cwmni i lunio'r dyluniad cychwynnol o'r cysyniad. Bellach, mae 'Marina Projects' wedi cwblhau eu gwaith. Bydd Aelodau'n ymwybodol yn barod o'r cysyniad a argymhellir a gafodd ei gyflwyno gan yr ymgynghorwyr a bydd angen cwblhau gwaith ychwanegol sylweddol cyn y gellir cyflwyno cais o'r fath am Ganiatâd Cynllunio.

**4.2** Ar hyn o bryd, mae 'JOP Consulting' yn dod at y camau olaf o'u gwaith o lunio adroddiad ar Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol ac Ieithyddol. Mae 'JOP Consulting' wedi bod yn adrodd i'r Grŵp Technegol ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

**5 -** ***<u>Gŵyl 'Wakestock' / 'Gŵyl Fwyd Pwllheli'</u>***

**5.1** Bwriedir cynnal Gŵyl Wakestock ym Masn Gogleddol harbwr Pwllheli o'r 10 - 12 Gorffennaf 2009. Yn yr un modd â 2008, mae'r trefnwyr wedi gofyn am ganiatâd a fyddai'n gadael i'r ŵyl gael ei chynnal ar y dydd Gwener, Sadwrn a Sul. Ni dderbyniodd yr Uned Forwrol unrhyw gwynion yn sgil y digwyddiad a gynhaliwyd yn yr Harbwr Mewnol yn 2008.

**5.1** Rydym wedi cael gwybod y bydd Gŵyl Fwyd Llŷn, sy'n ddigwyddiad hynod boblogaidd, yn cael ei chynnal ym Mhenrhyn Glandon ar 23 a 24 Mai 2009.

**6 -** ***<u>Clwb Hwylio</u>***

**6.1** Bu Clwb Hwylio Pwllheli yn llwyddiannus iawn i sicrhau fod nifer arwyddocaol o ddigwyddiadau mawreddog wedi'u denu i Bwllheli yn ystod 2008. Y prif ddigwyddiad oedd yr 'Optimist National Championships' a fu'n llwyddiant mawr. Atodir copi o restr fanwl o'r digwyddiadau, yn cynnwys nifer y cyfranogwyr ac amcan nifer y criw cefnogi sydd wedi cadarnhau eu bwriad o gystadlu ym Mhwllheli yn 2009.

Cymeradwyir y gwaith a wneir gan y Clwb Hwylio ac fe'i gwerthfawrogir yn enwedig oherwydd eu llwyddiant i ddenu digwyddiadau mor fawreddog i Bwllheli. Bydd aelodau'n cofio fod y 'Mirror World Championship' a Phencampwriaeth 'Splash' y Byd i fod i'w cynnal ym Mhwllheli yn ystod 2009.

Ble bo hynny'n bosibl, bydd staff o'r Uned Forwrol yn parhau i gynorthwyo gyda bodloni anghenion y cystadleuwyr a'r trefnwyr, ond rhaid pwysleisio fod y marina'n

gweithio i'w gapasiti ar hyn o bryd ac mae'n bosibl y bydd prinder o angorfeydd pontŵn sydd ar gael yn yr harbwr.

Mae'r pontŵn digwyddiadau ychwanegol a osodwyd yn ei le ac a oedd mewn comisiwn yn ystod wythnosau olaf 2008 o fudd i'r Clwb Hwylio a bydd o gymorth i sicrhau y gall llestrau diogelwch aros ar y dŵr trwy gydol y digwyddiad os oes angen. Yr Uned Forwrol brynodd y pontŵn yn dilyn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**7.-** ***Rheoliadau Llongau Drafft***

**7.1** Ar hyn o bryd, mae'r Adran Drafnidiaeth yn ymgynghori ar reoliadau i eithrio morwyr amatur mewn categorïau penodol o longau o'r drosedd o fod dros y lefel o alcohol a ganiateir. Dylid nodi nad yw'r Ddeddf yn caniatáu i'r Rheoliadau wneud eithriadau o'r drosedd o: "*being* **impaired** *in the ability to navigate because of drink or drugs*", dan adran 80(2) Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth.

Y dyddiad cau i ymateb yw 6 Mai 2009 ac mae ymgynghori'n digwydd gyda Phwyllgorau Harbwr Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli trwy gyfarfodydd y Pwyllgorau Harbwr perthnasol. Bydd sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Adran Drafnidiaeth os fydd y Pwyllgor yn gwneud cais am hynny.

**7.2** Wrth i'r Ddeddf gael ei phasio trwy'r Senedd, nododd y Llywodraeth ei fod yn tueddu eithrio cychod rhwyfo a phadlo a dingis hwylio o'r cyfyngiadau anadl a'r profion cysylltiedig. I'r gwrthwyneb, dywedodd y Llywodraeth ei fod yn tueddu i gynnwys y rhai hynny sy'n gyrru llestrau hamdden o faint sylweddol, cychod modur pwerus a badau dŵr personol, a adwaenir yn gyffredin fel *jet skis*, yn y cyfyngiadau a'r profion cysylltiedig.

Roedd peth cefnogaeth yn yr ymgynghoriad i ffigyrau a oedd yn seiliedig ar y paramedrau a awgrymwyd ynghylch eithriad yn seiliedig ar gyflymdra o ddim mwy na 17 not a hyd o ddim mwy na 22 metr. Fodd bynnag, sylwyd y byddai hyn yn eithrio nifer helaeth o fadau hamdden - nifer ohonynt a fyddai'n weddol fawr a chyflym. Ar ôl ystyried barn gan asiantaethau gorfodi, morwyr hamdden a'r cyhoedd, penderfynodd y Gweinidogion ar eithriad mwy cyfyngedig i bobl ar gychod a oedd yn fyrrach na 7 metr ac nad oeddynt yn gallu teithio'n gyflymach na 7 not.

Mae'r paramedrau hyn yn unol â'r rhai sy'n ymwneud â golau yn ***Rheol 23*** yr ***International Regulations for Preventing Collisions at Sea***, fel bod ganddynt y fantais o ddarparu cyfres o ffigyrau cofiadwy a dealladwy y bydd y rhan fwyaf o forwyr hamdden ac asiantaethau gorfodi yn eu hadnabod.

Wrth sefydlu'r paramedrau hyn, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol y bydd achosion ar yr ymylon ble y bydd y rhai sy'n syrthio y tu allan i'r eithriad o'r mymryn lleiaf, yn teimlo y dylent gael eu cynnwys yn yr eithriad. Fodd bynnag, byddai hynny'n digwydd er gwaethaf y paramedrau penodol. Amcan y Llywodraeth yw sicrhau bod morwyr amatur sydd ar longau sy'n peri mwy o risg oherwydd maint a'r cyflymdra posib, **yn cael eu cynnwys** yn y cyfyngiadau alcohol.

**7.3** Efallai y cyfeirir at y rheoliadau arfaethedig fel *Shipping (Alcohol) (Exemption) Regulations 200X* a byddant yn dod i rym ar **/**/****.

Ni fydd Adran 80(3) Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 yn berthnasol mewn amgylchiadau pan fo'r Llong y cyfeirir ati yn Adran 80 (1) y Ddeddf honno yn fyrrach na saith metr o hyd ac nad yw'n gallu teithio ar gyflymdra sy'n fwy na saith not.

**7.4** Mae Adran 80 Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 fel a ganlyn:

***Section 80 Non-professionals***

*(1) This section applies to a person who—*

*(a) is on board a ship which is under way,*

*(b) is exercising, or purporting or attempting to exercise, a function in connection with the navigation of the ship, and*

*(c) is not a person to whom section 78 or 79 applies.*

*(2) A person to whom this section applies commits an offence if his ability to exercise the function mentioned in subsection (1)(b) is impaired because of drink or drugs.*

*(3) A person to whom this section applies commits an offence if the proportion of alcohol in his breath, blood or urine exceeds the prescribed limit.*

*(4) The Secretary of State may make regulations providing for subsection (3) not to apply in specified circumstances.*

*(5) Regulations under subsection (4) may make provision by reference, in particular—*

*(a) to the power of a motor;*

*(b) to the size of a ship;*

*(c) to location.*

**7.5** Yn dilyn ymgynghoriad gyda Chydbwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli, bydd yr Uned Forwrol yn anfon barn pob Pwyllgor i'r Adran Drafnidiaeth. Er gwybodaeth i Aelodau, mae Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi ac Abermaw wedi cefnogi'r Ddeddf arfaethedig.

## *8.-* ***Canlyniad Barn Cwsmer***

Atodir dadansoddiad manwl o'r holiaduron a ddosbarthwyd i holl ddalwyr angorfeydd ym Mhwllheli yn ystod 2008, er gwybodaeth i Aelodau. Mae'n siomedig gweld mai dim ond 38% o'r holiaduron a ddychwelwyd.

Bydd yr Uned Forwrol yn ystyried barn y cleientiaid a bydd yn ymdrechu i gymryd camau i wella'r mannau hynny sydd angen sylw.

## *9.-* ***Ad-drefnu Gwasanaethau***

**9.1** Fel y bydd aelodau'n ymwybodol, mae'r Uned Forwrol wedi bod yn rhan o'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes am nifer o flynyddoedd ac roedd cefnogaeth y Pennaeth Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, a oedd ar gael bob amser, yn hanfodol i'r Uned.

**9.2** Yn anffodus, gan fod Cyngor Gwynedd angen canfod gostyngiadau arwyddocaol yn ei gyllideb gwariant, bydd yr Uned Dysgu Gydol Oes yn cael ei diddymu ar 31 Mawrth 2009, ac o'r 1 Ebrill, bydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn dod yn rhan o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi.

**9.3** Mae nifer o Swyddogion o fewn yr Uned Forwrol yn parhau i fod ar secondiad i rannau eraill o'r gwasanaeth ac mae'n bur debygol y bydd y cyfnod secondiad yn parhau hyd ddiwedd Medi 2009. Rhagwelir y bydd Harbwr Feistr presennol Pwllheli, sydd ar secondiad o Borthmadog, yn parhau ar secondiad ym Mhwllheli hyd ddiwedd Medi.

**9.4** Fodd bynnag, gan fod Cyngor Gwynedd angen adnabod arbedion yn ei gyllideb, bydd swydd Harbwr Feistr Pwllheli yn destun adolygiad yn y misoedd i ddod. Ar hyn o bryd, mae'r Harbwr Allanol yn cael ei reoli gan yr Harbwr Feistr tra bod y Marina'n cael ei reoli gan Reolwr y Marina. Mae angen i'r Uned Forwrol ymchwilio i uno'r swydd hon a bydd aelodau'n cofio bod bwriad o'r fath wedi ffurfio rhan o fewnoli rheolaeth Hafan Pwllheli.

**10.-** ***<u>Disel Coch</u>***

**10.1** Ers 1 Tachwedd 2008, gan fod yn rhaid i'r Deyrnas Unedig gydymffurfio â Deddfwriaeth Ewropeaidd, mae'r ad-daliad ar y Tollau sydd wedi'u gosod ar Ddisel Coch i'w ddefnyddio gan fadau pleser wedi dod i ben. Gallai'r ffaith fod morwyr yn gorfod talu'r tollau sy'n daladwy gael effaith sylweddol ar y defnydd a wneir o fadau pleser gan fod y tollau ychwanegol sy'n daladwy wedi'u hychwanegu at gost Disel Coch wrth y pwmp.

**10.2** Ers 1 Tachwedd, mae .4066c o dollau ychwanegol yn daladwy ar bob litr o Ddisel Coch pan fo'n cael ei brynu. Fodd bynnag, dim ond ar y ganran o gyfanswm y Disel Coch sy'n cael ei ddefnyddio i yrru badau pleser y bydd y tollau ychwanegol hyn yn daladwy.

**10.3** Os fydd y Disel Coch yn cael ei ddefnyddio i gynhesu'r bad neu i wefru'r batri, yna ni fydd Tollau ychwanegol yn daladwy.

**10.4** Cyn i'r cyflenwr roi Disel Coch yn y bad neu mewn cynhwysydd addas, mae'n rhaid i'r prynwr gwblhau ac arwyddo Datganiad Statudol er mwyn nodi ymlaen llaw ganran y Disel Coch sy'n cael ei ddefnyddio i yrru'r bad, a'r ganran a ddefnyddir i wresogi / gwefru'r batri ar fwrdd y bad. Y ganran o Ddisel Coch a argymhellir sy'n cael ei ddefnyddio i yrru a gwresogi/gwefru'r batri yw rhaniad o 60%/40%. Fodd bynnag, y prynwr sy'n gyfrifol am gyfrifo'r ganran a ddefnyddir a datgan hynny. Y cyflenwr tanwydd sy'n gyfrifol am gasglu'r Tollau ychwanegol a rhoi gwybod i Tollau Tramor a Chartref am y tollau ychwanegol sydd wedi'u casglu ar eu rhan.

**10.5** Dim ond perchnogion Badau Pleser sy'n gorfod talu y Tollau ychwanegol o .4066 y litr ac nid yw'n berthnasol i'r gweithredwr masnachol, h.y. Llestrau Pysgota, Llongau sy'n cario Teithwyr, Llongau Gwaith ac ati. Gyda'r pris ar hyn o bryd yn 0.65c y litr, bydd y Tollau ychwanegol sy'n daladwy gan berchnogion badau pleser yn cynyddu pris Disel Coch i £1.06 y litr ar gyfer y disel a ddefnyddir i yrru'r bad.

**10.6** Mae'r Uned Forwrol yn bryderus am yr oedi y bydd y broses o gwblhau'r Datganiad Statudol a'r gwaith o gyfrifo'r Tollau ychwanegol sy'n daladwy yn ei achosi yn y Pontŵn Tanwydd. Fel y nodwyd yn barod, bydd rhaid i bob cwsmer gwblhau ac arwyddo Datganiad Statudol cyn y gall y cyflenwr fynd ati i roi tanwydd iddynt a bydd rhaid i'r Tollau ychwanegol sy'n daladwy gael eu cyfrifo a'u casglu. Er ei bod yn broses gymharol syml, bydd yn achosi oedi wrth geisio cyflenwi tanwydd yn sydyn i gleientiaid sydd wedi angori wrth ymyl y pontŵn tanwydd yn harbwr Pwllheli.

## 11.- ***Craen Hafan Pwllheli***

**11.1** Fel yr adroddwyd i Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Harbwr ar 4 Tachwedd 2008, roedd yr Uned Forwrol wedi derbyn amcan brisiau gan dri chwmni o ran amnewid Craen y Cychod yn ystod diwedd 2009. Roedd yr amcan brisiau a dderbyniwyd fel a ganlyn:- Cwmni 1 = £132,590. Cwmni 2 = £108,000. Cwmni 3 = £134,000.

**11.2** Yn anffodus, nid oedd y broses a ddefnyddiwyd yn unol â’r anghenion caffael a bydd rhaid cyflwyno a hysbysebu’r angen i amnewid Craen y Cychod ar wefan Buy4Wales. Yn anffodus, bydd hyn yn peri peth oedi gydag amnewid Craen y Cychod.

**11.3** Bydd manyleb Craen y Cychod a’r gwahoddiad i gwmnïau addas i dendro am amnewid y Craen yn cael ei osod at wefan Buy4Wales cyn gynted ag y bo modd. Dyma gyfeiriad y wefan: www.buy4wales.co.uk/buy4wales.aspx . I ddechrau, bydd gofyn i gwmnïau sydd â diddordeb mewn cyflwyno amcan bris ar gyfer amnewid y Craen gofrestru ar y wefan www.sell2wales.co.uk

**11.4** Bydd yn rhaid i’r Uned Forwrol adnabod costau prynu’r Craen newydd o’i chyllideb bresennol. Bydd Aelodau’n ymwybodol fod yr Uned wedi bod yn dyrannu arian tuag at angen o’r fath am y ddwy flynedd ddiwethaf.